Canol Trefi
Pobl | Cymuned | Perthyn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council



# Canllaw Siop Fflach

## Rheoli Canol y Dref

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Y Stryd Fawr Newydd | 3 |
| 2. Egluro Siopau Fflach | 4 |
| 3. Camau i ddechrau Siop Fflach | 6 |
| 4. Logisteg | 8 |






# 1. Y Stryd Fawr Newydd

Mae stryd fawr Prydain yn newid ac yn esblygu'n gyflym. Roedd canol trefi yn cael eu dominyddu gan yr un manwerthwyr lluosog cyfarwydd. Mae'r hyn a elwir yn 'stryd fawr glôn' yn diflannu'n gyflym ac yn cael ei disodli gan brofiad llawer mwy amrywiol i ymwelwyr. Gyda'r newid hwn daeth gwerthfawrogiad newydd o fusnesau bach annibynnol a mwy o ymwybyddiaeth o'r gwerth y maent yn ei roi i ganol tref.

Yn dilyn pandemig Covid-19, mae llawer o bobl wedi datblygu mwy o gyswllt gyda'u cymuned leol. Teimlo ymdeimlad dyfnach o berthyn i'r lle maent yn ei alw'n gartref. Er gwaethaf yr holl helynt yn ddiweddar, mae'r stryd fawr yn parhau i fod yn fan lle gall pobl gael mynediad at ystod eang o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, optegwyr a fferyllfeydd.

Mae rhai syniadau cyffrous ac arloesol sy'n newid y ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio o fewn lleoliad canol tref yn dod i'r amlwg o'r cyfnod hwn o ansicrwydd.

Mae'n dod yn fwy poblogaidd i fyw yng nghanol tref. Gyda mwy o fuddsoddiad mewn cynlluniau teithio llesol, ystyrir bod byw yng nghanol tref yn opsiwn deniadol ac ymarferol ar gyfer demograffeg eang o bobl. Mae'r cysyniad o ofod swyddfa yn cael ei drawsnewid drwy greu gweithleoedd cydweithredol newydd.

Mae'r adeiladau arloesol hyn yn uno technoleg a busnesau creadigol i ddarparu llwyfan cyffrous i'w helpu i dyfu. Ochr yn ochr â'r rhain mae amrywiaeth o ddarparwyr bwyd a datblygiad 'bwyd stryd' ledled y DU fel profiad cyrchfan.

Yn unol ag arallgyfeirio ein strydoedd mawr, mae'r farchnad eiddo hefyd wedi newid. Mae prydlesi'n mynd yn fyrrach wrth i landlordiaid gael eu hannog i fabwysiadu dull gosod mwy hyblyg.

Mae'r syniad o siopau Fflach, a oedd unwaith i'w gweld yn amlach mewn trefi a maestrefi dinasoedd, bellach wedi dod yn llawer mwy poblogaidd. Cânt eu cydnabod fel ffordd o harneisio ysbryd entrepreneuraidd a helpu pobl i sefydlu busnes llwyddiannus.

# 2. Egluro Siopau Fflach

## Beth yw Siop Fflach?

Mae siop Fflach dros dro yn defnyddio gofod manwerthu gwag. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, mae tenant a landlord yn ymrwymo i brydles tymor byr sydd fel arfer am gyfnod sy'n llai na chwe mis. Mae'r trefniant yn creu siop dros dro sy'n cynnig manteision i'r ddau barti.

## Pam ddylai tenant ystyried Siop Fflach?

**Mae Siop Fflach yn cynnig:**

- cyfle i asesu addasrwydd lleoliad heb ymrwymo i brydles hirdymor
- cyfle i brofi syniad busnes newydd a mesur y galw am gynnyrch/gwasanaeth
- gofod amlbwrpas y gellir ei ddefnyddio ar gyfer llu o weithgareddau gan gynnwys prosiectau cymunedol, orielau celf a gweithdai
- llwyfan i farchnata syniadau busnes newydd i gynulleidfa ehangach o lawer

## Pam ddylai landlord ystyried Siop Fflach?

**Gall Siop Fflach:**

- gynhyrchu incwm bach
- trosglwyddo'r cyfrifoldeb am dalu Ardrethi Busnes o'r landlord i'r tenant, cyn belled â bod y tenant yn meddiannu am o leiaf 6 wythnos
- gwneud uned wag yn fwy diogel ac atal fandaliaeth
- o bosibl yn gostwng y premiwm yswiriant ar uned wag
- denu tenantiaid newydd i uned wag
- gwella golwg ac amrywiaeth y stryd fawr
- cynnig cyfle i denant posibl roi cynnig ar ei syniad gan ei wneud yn fwy tebygol o ystyried cymryd prydles hirdymor



## Pwy sy'n talu ardrethi busnes ar Siop Fflach?

Pan fydd siop Fflach yn defnyddio uned wag, mae'r cyfrifoldeb i dalu ardrethi busnes yn mynd o'r landlord i'r tenant. Mae hyn cyn belled â bod y tenant yn meddiannu am o leiaf 6 wythnos.

Nodiadau mewn perthynas ag ardrethi busnes:

- eiddo wedi'i feddiannu sydd â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai yn gymwys i dderbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach o 100% ac eiddo sydd â gwerth ardrethol o rhwng £6,001 a £12,000 yn gymwys i gael llai o ryddhad ar raddfa dapro. (e.e. rhyddhad o 50% am werth ardrethol o £9,000). Fodd bynnag, gall trethdalwr ond gael rhyddhad am uchafswm o ddau eiddo ar un rhestr ardrethu.
- Mae siopau Fflach sy'n cael eu meddiannu gan elusen gofrestredig yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol o 80% ar gais

Os oes gennych ymholiad penodol yn ymwneud ag Ardrethi Busnes ar siop Fflach, gallwch gysylltu â thîm.

Trethu'r Cygnor am gyngor.
E-bostiwch **taxation@bridgend.gov.uk**

## A oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer Siop Fflach?

Os cynigir siop fanwerthu Fflach ar gyfer uned fanwerthu bresennol ar lefel llawr gwaelod, mae'n annhebygol y bydd angen newid y cais cynllunio o ran defnydd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar uned Fflach annibynnol yn dibynnu ar leoliad yr uned a hyd y brydles.

Cyn cychwyn ar brosiect siop Fflach, efallai yr hoffech gysylltu ag Adran Gynllunio'r Cyngor i gael rhywfaint o gyngor ac arweiniad ar sut mae caniatâd cynllunio yn berthnasol i siopau Fflach.

E-bostiwch: **planning@bridgend.gov.uk**



# 3. Camau i ddechrau Siop Fflach

## **Cam 1.** Dod o hyd i uned wag

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr **Fynegai Eiddo Canol Trefi** ar-lein. Rhestrir pob uned fanwerthu sydd ar gael i'w phrydlesu neu ei gwerthu yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Mae'r Mynegai yn cynnwys llun a disgrifiad o bob eiddo, map sy'n dangos ei leoliad, manylion cyswllt yr asiant a lle bo ar gael, llyfryn marchnata'r asiant.

Mae'r cyngor hefyd yn casglu **data ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr** yn Stryd Adare a Stryd Caroline, yng nghanol tref Porthcawl yn Stryd John ac yng nghanol tref Maesteg yn Stryd Talbot. Mae'r data hwn ar nifer yr ymwelwyr yn dangos faint o bobl sydd wedi ymweld â'r lleoliad hwnnw bob wythnos ac mae'n arf defnyddiol i werthuso niferoedd y cerddwyr yng nghanol tref benodol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen ar ddwy set o unedau marchnad a allai fod yn opsiwn ar gyfer siop Fflach yn dibynnu ar argaeledd.

**Marchnad Awyr Agored Maesteg**
Mae marchnad awyr agored wedi'i lleoli yng nghanol tref Maesteg, ac mae hon yn cynnwys 13 o unedau annibynnol wedi'u hadeiladu o amgylch man cyhoeddus deniadol ger Neuadd y Dref hanesyddol.

**Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr**
Yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, mae marchnad dan do wedi'i lleoli yng Nghanolfan Siopa Rhiw. Mae'r farchnad yn cynnwys 33 o stondinau wedi'u gosod o amgylch gofod digwyddiadau newydd ei adnewyddu sydd ar gael i'w logi.

Rheolir y ddwy farchnad gan Dîm Eiddo'r cyngor. I gael rhagor o fanylion neu i gael trafodaeth anffurfiol anfonwch e-bost at **property@bridgend.gov.uk**

**Gwnewch gynllun**
Mewn ffordd syml a chryno, cyflwynwch eich achos busnes. Mae un ochr o A4 yn ddigon. Dylai hyn egluro'n glir beth yw eich syniad busnes a sut y bydd siop Fflach o fudd i'r landlord.

### Cyflwynwch eich syniad
Cysylltwch â'r asiantau eiddo sy'n marchnata'r uned a gofynnwch iddynt gyflwyno eich syniad i'r landlord ar eich rhan. Mae cael achos busnes sydd wedi'i gyflwyno'n dda yn dangos i landlord eich bod o ddifrif am ddechrau busnes ac wedi ystyried y cysyniad o ymgymryd â siop Fflach.









### **Cam 2.** Cytuno ar brydles tymor byr

Os bydd y landlord yn cytuno, gofynnir i chi ymrwymo i brydles tymor byr. Ar y cam hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried cael rhywfaint o gyngor cyfreithiol annibynnol cyn cytuno i ymrwymo i brydles.

Bydd prydles tymor byr yn cwmpasu hyd tenantiaeth, manylion y cytundeb rhwng y tenant a'r landlord. Bydd hefyd yn nodi rhai o'r cyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â'r eiddo.

- pwy sy'n talu'r taliadau cyfleustodau (nwy, dŵr a thrydan)
- pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr eiddo
- pwy sy'n talu am unrhyw ddifrod a achoswyd
- pwy sy'n gofalu am gynnal a chadw'r eiddo h.y. gosodiadau a ffitiadau

### **Cam 3.** Cynllun

Mae angen i siopau Fflach yn ôl eu natur fod yn fannau hyblyg. Mae'n werth ystyried yn ofalus y ffordd orau o ddefnyddio'r siop i werthu nwyddau neu ddarparu gwasanaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu symudiad tuag at siopa sy'n fwy seiliedig ar y profiad, sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar yr amgylchedd siopa a gwasanaeth cwsmeriaid. Cofiwch, bydd rhaid i unrhyw ddodrefn a ffitiadau a brynir fod yn hawdd i'w symud o gwmpas ac yn gludadwy. Mae hyn er mwyn i'r uned gael ei dychwelyd i'w chyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y brydles.

### **Cam 4.** Brandio

Gan fod siopau Fflach yn rhai dros dro, byddant yn denu diddordeb gan siopwyr chwilfrydig pan fyddant yn ymddangos i ddechrau ar y stryd fawr. Felly, mae'n bwysig meddwl sut mae eich siop Fflach yn cael ei chyflwyno ar y tu allan. Mae hefyd yn werth ystyried a yw'n glir beth mae'r siop yn ei werthu neu'r gwasanaeth a gynigir ganddi.

### **Cam 5.** Marchnata

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o ddechrau hyrwyddo eich siop Fflach yn y gymuned leol a chreu cyffro o amgylch y syniad. Mae Busnes Cymru yn cynnig cyrsiau am ddim ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol o fewn cyd-destun busnes. Ewch i **wefan Busnes Cymru** neu ffoniwch **03000 603000** i gael rhagor o wybodaeth.

### Ac yn olaf...

Ar ôl cytuno ar brydles ar gyfer siop Fflach, mae angen ystyried ychydig o bethau cyn i chi agor eich drysau i'r cyhoedd.



# 4. Logisteg

Mae angen ymrwymiad a chysondeb i redeg siop. Mae'n werth ystyried yr oriau y gallwch ymrwymo i agor siop Fflach bob dydd. Mae'n well agor am oriau byrrach ond bod yn gyson, na chael oriau agor ysbeidiol sy'n gallu drysu a siomi cwsmeriaid.

Bydd angen meddwl am bethau syml fel pwy sy'n agor ac yn cau'r siop bob dydd, gan y gallai fod angen iddynt weithio o amgylch ymrwymiadau presennol.

I gael rhagor o wybodaeth am ddechrau siop Fflach yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl neu Faesteg; cysylltwch â Rheolwr Canol Tref y Cyngor, Andrew Highway, ar **01656 815225** neu e-bostiwch: **andrew.highway@bridgend.gov.uk**

**Sylwch yr anogir ichi gael cyngor annibynnol cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb cyfreithiol.**

Canol Trefi

Pobl | Cymuned | Perthyn